

Gosod systemau draenio

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â phrofi draeniau newydd a/neu a ddraeniau a ddisodlir, dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol a dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a pharatoi ar gyfer gosod peipiau

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes galwedigaethol Gweithrediadau Adeiladu a Pheirianeg Sifil a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

- P1 dehongli'r wybodaeth a roddir am y gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd
- P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a phenodol a chanllawiau swyddogol i wneud eich gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach
- P3 dewis faint o adnoddau sydd eu hangen ac ansawdd gofynnol yr adnoddau hynny ar gyfer y dulliau gweithio
- P4 cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas
- P5 cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir yn y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â'r gofynion
- P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd yn unol â'r rhaglen waith

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Meini Prawf Perfformiad 1

Dehongli gwybodaeth

K1 pa weithdrefnau a ddatblygwyd gan y sefydliad i adrodd am **wybodaeth** amhriodol ac **adnoddau** anaddas, yn ogystal â'u cywiro, a sut i'w gweithredu

K2 pa fathau o **wybodaeth** sydd ar gael, beth yw eu ffynhonnell a sut i'w dehongli

K3 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer datrys **problemau** â'r **wybodaeth** a pham mae'n bwysig eu dilyn

Meini Prawf Perfformiad 2

Arferion gwaith diogel

K4 **deddfwriaeth** gyfredol a **chanllawiau swyddogol** a sut cânt eu cymhwyso

K5 pa fathau o **ddiffoddwyr tân** sydd ar gael a phryd i'w defnyddio

K6 sut y dylid ymateb i **argyfyngau** a phwy ddylai ymateb

K7 beth yw **gweithdrefnau diogelwch** y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

K8 beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny

K9 pam, pryd a sut y dylid defnyddio **cyfarpar rheoli ieched a diogelwch**

K10 sut i weithredu arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn cydymffurfio â'r **ddeddfwriaeth** gyfredol a **chanllawiau swyddogol**

Meini Prawf Perfformiad 3

Dewis adnoddau

K11 beth yw nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion yr **adnoddau** a sut y dylid cywiro diffygion

K12 sut y dylid defnyddio'r **adnoddau** a sut i adrodd am unrhyw **broblemau** sy'n gysylltiedig â nhw

K13 beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis **adnoddau**, pam y cawsant eu datblygu a sut i'w defnyddio

K14 pa **berygion** sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau** a'r **dulliau gweithio** a sut i ddelio â'r rhain

Meini Prawf Perfformiad 4 **Lleihau'r risg o ddifrod**

K15 sut i **ddiogelu gwaith** rhag difrod a phwrrpas diogelu

K16 pam y dylid **gwaredu gwastraff** yn ddiogel a sut i wneud hyn

Meini Prawf Perfformiad 5 **Bodloni gofynion y contract**

K17 sut i ymgymryd â **dulliau gweithio** i fodloni'r gofynion a sut i adrodd am **broblemau**

K18 sut i **gynnal a chadw** offer a chyfarpar

Meini Prawf Perfformiad 6 **Amser a neilltuwyd**

K19 beth yw'r **rhaglen** i'r gwaith gael ei wneud o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd a pham y dylid cadw at derfynau amser

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Meini Prawf Perfformiad 1

1 dehongli lluniadau, gofynion, amserlenni, asesiadau risg, datganiadau dull a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd i'w wneud

Meini Prawf Perfformiad 2

- 2 osgoi risg drwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am o leiaf bump o'r canlynol
- 2.1 dulliau gweithio
 - 2.2 defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel
 - 2.3 gweithio gyda gwasanaethau cyfleustodau ac o'u cwmpas, gan gynnwys treiddio'r tir
 - 2.4 defnyddio cyfarpar mynediad yn ddiogel
 - 2.5 defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
 - 2.6 risgiau penodol i iechyd

Meini Prawf Perfformiad 3

- 3 dewis adnoddau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith eich hun
- 3.1 deunyddiau, cydrannau a gosodiadau
 - 3.2 offer a chyfarpar

Meini Prawf Perfformiad 4

- 4 diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod
- 5 cynnal lle gweithio clir a thaclus
- 6 gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

Meini Prawf Perfformiad 5

7 dangos sgiliau gwirio, mesur, marcio allan, torri, gosod, lleoli, ffitio, uno, lefelu, plymio, alinio, sicrhau a phrofi

Gosod systemau draenio

8 defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer

9 gosod deunyddiau gwelyo a gosod a phrofi peipiau newydd a strwythurau draenio ar gyfer draeniau dŵr wyneb neu ddŵr budr newydd a/neu rai a ddisodlir, ar gyfer o leiaf un o'r dilynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir

9.1 siambrau archwilio

9.2 systemau dŵr wyneb

9.3 systemau dŵr budr

9.4 amgylchynu'r peipiau â'r deunyddiau a nodwyd

9.5 ôl-lenwi ffosydd sy'n cynnwys deunyddiau system ddraenio cywasgedig a rhydd yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir

Meini Prawf Perfformiad 6

10 cwblhau'ch gwaith eich hun o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cleient

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gwaredu gwastraff

1 cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

*

*

Argyfyngau

2 ymateb y gweithiwr i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol

2.1 tanau, gollyngiadau ac anafiadau

2.2 argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol

*

*

Diffoddwyr tân

3 dŵr, CO₂, ewyn a phowdr a'u defnyddiau

*

*

Peryglon

4 y rhai hynny a nodir drwy asesiad risg, fel rhan o ddull gweithio, yng ngwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr, ac mewn rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

*

*

Cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

5 y cyfarpar a nodir gan yr egwyddorion atal ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau o gyfarpar a phwrpas pob math, sefyllfaoedd gwaith a'r amgylchedd gwaith cyffredinol

5.1 mesurau diogelu ar y cyd

5.2 system awyru a gwacáu leol

Gosod systemau draenio

5.3 cyfarpar diogelu personol

5.4 cyfarpar diogelu anadlol

*

*

Gwybodaeth

6 lluniadau, gofynion, amserlenni, asesiadau risg, datganiadau dull, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, cyfarwyddiadau ysgrifenedig ac ar lafar, brasluniau, data electronig, trwyddedau, rheoliadau a chanllawiau swyddogol sy'n gysylltiedig â gosod draeniau

*

*

*

*

*

*

*

*

*

*

Deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol

7 cyfrifoldebau gweithiwr o ran damweiniau posibl, peryglon iechyd a'r amgylchedd wrth weithio yn y gweithle, o dan lefel y tir, mewn lleoedd cyfyng, ar uchder, ag offer a chyfarpar ac â deunyddiau a sylweddau ac wrth symud a storio deunyddiau drwy eu codi a'u cario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol

*

*

Cynnal a chadw

8 gofal y gweithiwr am offer llaw a phŵer

*

*

Dulliau gweithio

9 cymhwyso gwybodaeth i sicrhau arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel ac iach mewn perthynas â'r dull, y maes gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddir i

9.1 cloddio ffosydd a'u cynnal

9.2 cadarnhau bod cyflwr y tir, y safle a'r ffosydd a gloddiwyd yn addas ar gyfer gosod y system ddraenio

9.3 nodi peryglon llwythi a strwythurau wrth ymyl ffosydd a gloddiwyd

9.4 delio â dŵr daear

9.5 gweithio o gwmpas gwasanaethau cyfleustodau eraill

9.6 gosod deunyddiau geodecstil

9.7 paratoi gwahanol ddeunyddiau gwelyo gronynnog a smentaidd

9.8 nodi tir gwastad a llethrog

9.9 nodi'r gwahaniaeth rhwng systemau draenio dŵr budr a systemau draenio dŵr wyneb

9.10 mesur, marcio a thorri deunyddiau systemau draenio

9.11 gosod, lleoli, lefelu, plymio, alinio, ffitio, uno a sicrhau systemau draenio newydd

9.12 codi a chludo systemau draenio wedi'u cydosod

9.13 adeiladu strwythurau system ddraenio (systemau lliniaru llifogydd, cwlfertau, siambrau archwilio, draeniau ochrol, gorlifoedd, bigau, draeniau hidlo, ffosydd cerrig, carthbyllau, gwelyau cors neu offer trin)

9.14 gosod cydrannau wedi'u rhag-gastio (metel, concrit, clai a phlastig) strwythur system ddraenio (siambrau archwilio, tanciau septig a gwaith haearn ar strydoedd)

9.15 cysylltu systemau newydd â systemau presennol a'u selio

9.16 paratoi i gynnal profion ar systemau draenio

9.17 gweithio gyda pheiriannau, gan gynnwys peiriannau codi, yn ogystal â gweithio o'u cwmpas ac yn agos iawn atynt

9.18 storio a gwaredu cydrannau a symudwyd

9.19 dilyn gweithdrefnau hylendid a nodwyd, yn enwedig wrth ddelio â systemau draenio dŵr budr

Gosod systemau draenio

9.20 nodi, penderfynu a rhoi gwybod pryd mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol

9.21 nodi gofynion penodol ar gyfer strwythurau o ddiddordeb arbennig, adeiladwaith traddodiadol (cyn 1919) ac arwyddocâd hanesyddol

9.22 defnyddio offer llaw a phŵer

9.23 gweithio ar uchder ac o dan lefel y tir

9.24 defnyddio cyfarpar mynediad

10 gwaith tîm a chyfathrebu

11 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â gosod systemau draenio

*

*

Problemau

12 y rhai hynny sy'n codi o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio

12.1 eich awdurdod eich hun i unioni sefyllfa

12.2 gweithdrefnau adrodd y sefydliad

*

*

Rhaglen

13 mathau o siartiau cynnydd, amserlenni a thargedau cynhyrchiant

14 y ffordd y mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif

15 gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer adrodd am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

*

*

Diogelu gwaith

16 diogelu gwaith rhag difrod a achosir gan weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw

Gosod systemau draenio

*

*

*

*

*

*

*

*

Adnoddau

17 deunyddiau, cydrannau a chyfarpar mewn perthynas â niferoedd, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd mathau safonol ac arbenigol o'r canlynol

17.1 peipiau, ffitiadau a chydrannau ategol

17.2 cydrannau (metel, concrit, clai neu blastig) wedi'u rhag-gastio

17.3 briciau, blociau a bagiau tywod

17.4 deunyddiau gronynnog, agregau, sment, concrit, morterau a thywod

17.5 deunyddiau selio (adlynion, cyfansoddion a hydoddyddion)

17.6 offer llaw a phŵer

18 ffyrdd o gadarnhau bod yr adnoddau a'r deunyddiau'n bodloni'r gofynion

19 dulliau o gyfrifo niferoedd, hyd, symiau, arwynebedd a gwastraff sy'n gysylltiedig â'r dull a'r weithdrefn ar gyfer gosod systemau draenio

*

*

Gweithdrefnau diogelwch

20 safle, gweithle, cwmni, gweithiwr a cherbydau

Ymddygiadau

- 1 **Gweithio'n ddiogel:** ystyried eich diogelwch eich hun a'r bobl o'ch cwmpas, herio ymddygiad anniogel
- 2 * *Cyfathrebu'n effeithiol:** ar lafar, yn ysgrifenedig, yn electronig, gwranddo, iaith y corff, cyflwyno
- 3 * *Parch:** cymhwyso egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ddelio ag eraill
- 4 * *Gweithio fel tîm:** gweithio'n effeithiol ac yn ddiogel gydag eraill heb lawer o oruchwyliaeth
- 5 * *Gweithio'n annibynnol:** cymryd cyfrifoldeb am gwblhau'ch gwaith eich hun yn ddiogel
- 6 * *Meddwl yn rhesymegol:** meddwl mewn ffordd glir a dilys wrth wneud penderfyniadau er mwyn dilyn y cyfarwyddiadau gwaith yn ddiogel
- 7 * *Gweithio'n effeithiol:** gwneud y gwaith mewn ffordd ddibynadwy, diogel a chynhyrchiol
- 8 * *Rheoli amser:** defnyddio'ch amser eich hun yn effeithiol er mwyn cwblhau'r gwaith mewn pryd, cymryd yr amser i fod yn ddiogel
- 9 * *Bod â'r gallu i addasu:** gallu addasu i newidiadau i'r cyfarwyddiadau gweithio, rhoi diogelwch yn gyntaf

Gosod systemau draenio

Datblygwyd gan	Construction Skills
Dyddiad cymeradwyo	31 Rhag 2020
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Rhag 2025
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	COSVR639
Galwedigaethau perthnasol	Adeiladu
Cyfres/Set	Galwedigaethau Trywel (Adeiladu), Gweithrediadau Cynnal a Chadw Adeiladau (Aml-grefft), Atgyweirio ac Adnewyddu, Gweithrediadau Adeiladu a Pheirianeg Sifil (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Peipiau; Siambrau archwilio; Cwlfertau; Ffogydd cerrig; Carthbyllau; Tanciau septig; Corsleoedd; Gorlifoedd; Offer trin; Rhwystrowyr; Mandrel